# Clare Garden Village
# Y Bont-faen

Nod y polisi Rhaeadru yw sicrhau bod datblygiad newydd Newydd Housing Association yng Clare Garden Village yn gynaliadwy, yn dod yn rhan o’r gymuned leol, ac yn cynorthwyo’r rhai sydd â’r angen mwyaf am dai.   Er mwyn cyflawni'r nod hwn, mae'r dull ar gyfer Clare Garden Village wedi'i ddatblygu a'i gytuno mewn partneriaeth â Chyngor Bro Morgannwg, Newydd Housing Association, Chyngor Cymuned Penllyn a Chyngor Tref y Bont-faen gyda Llanfleiddan.

Dylid nodi, yn unol ag amodau'r gymeradwyaeth gynllunio, bod yr eiddo yma i aros fel tai cymdeithasol ar rent am byth.

**Cysylltiad Lleol**

Preswylfa Bresennol
Preswylfa bresennol yn yr ardal flaenoriaeth.

Meini Prawf Teulu
Cysylltiadau teuluol uniongyrchol yn yr ardal flaenoriaeth, h.y. rhieni a brodyr a chwiorydd neu gyfwerth ac mae'r ymgeisydd mewn cysylltiad agos rheolaidd â'r aelod hwnnw o’r teulu. Nid yw plant o dan 18 oed yn cael eu hystyried yn gysylltiad lleol.

Preswylfa Flaenorol
Preswylfa flaenorol yn yr ardal flaenoriaeth.

Cyflogaeth Barhaol
Cyflogaeth barhaol gyda chontract cyflogaeth yn y maes blaenoriaeth.

Wedi Ymddeol o Lety Clwm
Yn ymddeol o lety clwm yn yr ardal flaenoriaeth.

Dylai ymgeiswyr am Dai Gosod fodloni prif egwyddorion y polisi uchod a chael eu blaenoriaethu yn unol â’r meini prawf canlynol:

**Blaenoriaeth 1**
Bydd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i ymgeiswyr sydd ym mand Aur neu Aur Ychwanegol Homes4U gyda chysylltiad lleol â'r ardal y cytunwyd arni, sef Cyngor Tref y Bont-faen gyda Llanfleiddan a Cyngor Cymuned Penllyn yn yr achos hwn.

**Blaenoriaeth 2**
Os nad oes digon o ymgeiswyr o fewn Blaenoriaeth 1, yna rhoddir blaenoriaeth i'r ymgeiswyr hynny sydd yn y band Aur neu Aur Ychwanegol, ac sydd â chysylltiad â gweddill Bro Morgannwg.

**Blaenoriaeth 3**
Os nad oes digon o ymgeiswyr o fewn Blaenoriaethau 1 a 2, rhoddir blaenoriaeth i'r ymgeiswyr hynny ym mand Arian neu Arian Ychwanegol Homes4U gyda chysylltiad lleol â'r ardal y cytunwyd arni, sef Cyngor Tref y Bont-faen gyda Llanfleiddan a Cyngor Cymuned Penllyn yn yr achos hwn.

**Blaenoriaeth 4**
Os nad oes digon o ymgeiswyr o fewn Blaenoriaethau 1-3, yna rhoddir blaenoriaeth i'r ymgeiswyr hynny sydd yn y band Arian neu Arian Ychwanegol sydd â chysylltiad â gweddill Bro Morgannwg.

**Blaenoriaeth 5**
Os nad oes digon o ymgeiswyr o fewn Blaenoriaethau 1-4, rhoddir blaenoriaeth i'r ymgeiswyr hynny ym mand Efydd Homes4U sydd â chysylltiad lleol â'r ardal y cytunwyd arni sef Cyngor Tref y Bont-faen gyda Llanfleiddan a Cyngor Cymuned Penllyn yn yr achos hwn.

**Blaenoriaeth 6**
Os nad oes digon o ymgeiswyr o fewn Blaenoriaethau 1-5, yna rhoddir blaenoriaeth i'r ymgeiswyr hynny sydd yn y band Efydd sydd â chysylltiad â gweddill Bro Morgannwg.

Mae ymgeiswyr â blaenoriaeth feddygol yn cael blaenoriaeth lle mae eiddo wedi'i addasu â blaenoriaeth feddygol ar gael, waeth beth fo'r cysylltiad lleol.

**Rheoli Tai ar gyfer Eiddo Gosod Newydd**

Ar gyfer yr holl ymgeiswyr sy'n cael eu lletya yng Clare Garden Village, bydd Newydd Housing Association yn:

- Gwiriadau cyn-denantiaeth